

<b>Adroddiad i'r</b>	Cabinet
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	28 Mehefin 2022
<b>Aelod Arweiniol / Swyddog</b>	Y Cyngorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
<b>Awdur yr adroddiad</b>	Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
<b>Teitl</b>	Adroddiad Cyllid (Mai 2022/23 – gan gynnwys Llyfr Crynhoi'r Gyllideb 2022/23)

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion cyllideb refeniw ac arbedion y cyngor fel y cytunwyd ar gyfer 2022/23. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor, a chadarnhau'r cyllidebau gwasanaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer 2022/23.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2022/23 a'r cynnydd ar y strategaeth y cytunwyd arni.

3.2 Bod yr Aelodau'n nodi'r ddogfen 'Crynodeb o'r Gyllideb' sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad 1 ac, fel yn y blynyddoedd blaenorol, yn cytuno i'w chyhoeddi ar y rhyngryd.

3.3 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r weithdrefn i ddileu Trethi Busnes na ellir eu hadennill, fel y manylir yn Adran 6.9.

## **4. Manylion yr adroddiad**

Mae'r Adroddiad Cryno ar y Gyllideb ar gyfer 2022/23 wedi'i gynnwys yn Atodiad 1, sy'n rhoi manylion cyllideb refeniw'r cyngor. Mae'n cynnwys crynodebau cyllideb adrannol, diweddariad o'r Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2022/23 (Atodiad 2). Cyllideb refeniw net y Cyngor yw 233.693 miliwn (£216.818 miliwn yn 21/22). Rhagwelir y bydd gorwariant o £1.000 miliwn ar sefyllfa cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol. Amlinellir y naratif o amgylch y risgiau a'r rhagdybiaethau presennol sy'n sail i'r asesiad hwn yn Adran 6 ac Atodiad 3.

Roedd cyllideb 2022/23 yn gofyn am ddod o hyd i a chytuno ar arbedion gwasanaeth ac arbedion effeithlonrwydd o £0.754 miliwn fel y nodir isod:

- Mae Ffioedd a Thaliadau wedi bod yn destun chwyddiant yn unol â'r polisi Ffioedd a Thaliadau a gytunwyd (£0.120 miliwn).
- Mae arbedion effeithlonrwydd gweithredol (£0.634 miliwn) wedi eu nodi yn bennaf gan wasanaethau drwy gydol y flwyddyn ac o fewn cyfrifoldeb a ddirprwywyd i Benaethiaid Gwasanaeth mewn ymgynghoriad ag Aelodau Arweiniol.
- Ni ofynnwyd am unrhyw arbedion gan y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol nac Ysgolion.

Tybir bod yr arbedion gweithredol a'r codiadau mewn ffioedd a thaliadau wedi'u cyflawni.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y Cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol yn sylfaen i waith ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Manylir ar naratifau gwasanaethau arwyddocaol sy'n egluro amrywiadau a risgiau yn Atodiad 3, ond dylid nodi'r canlynol hefyd:

**6.1 Effaith y Coronafeirws a Chwyddiant** – Mae'r strategaeth o weithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru wedi helpu i sicrhau dros £15 miliwn o gymorth ariannol uniongyrchol y llynedd. Rydym yn parhau i hawlio taliadau Hunan-ynysu a Thâl Salwch Statudol Ychwanegol, ynghyd â thaliadau uniongyrchol Prydau Ysgol Am Ddim. Cytunwyd ar gronfa wrth gefn o £1.9 miliwn fel rhan o'r gyllideb ar gyfer 22/23 i ariannu unrhyw effaith barhaus y pandemig na ellir ei hawlio gan LIC ac i gydnabod y cynnydd mewn chwyddiant ar yr adeg y pennwyd y gyllideb. Er bod y risg o ran covid wedi lleihau'n sylweddol, mae'r arwyddion cynnar yn dangos bod y risg chwyddiant wedi cynyddu'n bennaf oherwydd y rhyfel yn yr Wcráin. Bydd y sefyllfa'n cael ei monitro'n ofalus dros y misoedd nesaf.

**6.2 Cyllidebau Corfforaethol** – Er y rhagwelir ar hyn o bryd y byddwn yn mantoli'r gyllideb, mae'n anodd mesur y risgiau canlynol gan ei bod yn gynnar yn y flwyddyn:

- Setliadau tâl ar gyfer 2022/23
- Galw ar gynlluniau wrth gefn yn ymwneud ag ynni a phwysau chwyddiant eraill (gweler 6.1)

Bydd y rhain yn cael eu monitro'n agos dros y misoedd nesaf.

**6.3 Addysg a Gwasanaethau Plant** – Y rhagdybiaeth alldro presennol yw gorwariant o £1.088 miliwn. Er bod pwysau ychwanegol o £750k wedi'i dderbyn fel rhan o'r gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer 2022/23, mae hwn yn faes sy'n peri pryder o hyd. Mae'r rhan fwyaf o'r pwysau (£0.786 miliwn) yn ymwneud â lleoliadau maethu preswyl ac annibynnol newydd, sydd naill ai wedi cychwyn yn gynnar yn y flwyddyn ariannol hon neu y rhagwelir y byddant yn parhau'n hwy na'r disgwyl (cyfanswm o 18 lleoliad). Mae'r gorwariant a ragwelir yn tybio y byddwn yn derbyn £0.880 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru eleni, er mae £0.300 miliwn o hyn eto i'w gadarnhau.

**6.4 Gwasanaeth Cefnogaeth Gymunedol** – Er bod pwysau ychwanegol o £3.127 miliwn wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2022/23, mae'r maes gwasanaeth hwn yn parhau i beri risg. Mae digartrefedd yn arbennig yn wynebu pwysau sylweddol. Er hynny, rydym ar hyn o bryd yn gobeithio y byddwn yn gallu cadw'r pwysau hwn o fewn y gyllideb a gynyddwyd. Fel yr amlygwyd yn yr Adroddiad Sefyllfa Derfynol, mae cronfa arian parod o £2.440 miliwn ar gael i helpu i ariannu unrhyw bwysau yn ystod y flwyddyn.

**6.5 Ysgolion** – Roedd y gyllideb a gytunwyd gan y Cyngor ar gyfer 2022/23 yn cynnwys cyfanswm buddsoddiad ychwanegol net o ychydig dros £4.4 miliwn yng nghyllidebau dirprwyedig ysgolion (heb gynnwys cynnydd i grantiau gan Lywodraeth Cymru). Y cyfnod monitro cyntaf ar gyfer ysgolion yw diwedd mis Mehefin pan fyddant yn cyflwyno adroddiadau monitro manwl. Y balansau ysgol i'w cario ymlaen i 2022/23 yw balans credyd net o £12.448 miliwn, sy'n cynrychioli cynnydd o £6.778 miliwn yn y diffyg sydd wedi'i ddwyn ymlaen i 2021/22 o £5.670 miliwn. Mae'r symudiad ers y llynedd yn ymwneud yn bennaf â derbyn cyllid untro ac arbedion untro gan fod ysgolion wedi bod ar gau am ran helaeth o'r flwyddyn ac, yn benodol, derbyniwyd nifer o grantiau mawr ddiwedd mis Mawrth. Er y croesawir hyn yn fawr, dylid cadw natur untro'r cyllid hwn mewn cof. Mae llawer o'r cyllid wedi'i glustnodi i gael ei ddefnyddio yn ystod 2022/23 er mwyn sicrhau bod ysgolion a disgyblion yn parhau i ddod at eu hunain yn dilyn effaith pandemig Covid. Bydd cydweithwyr Addysg a Chyllid yn gweithio'n agos i helpu i sicrhau bod y balansau hyn yn cael eu defnyddio mewn modd amserol ac effeithiol. Mae tanwariant bach o £109k ar gyllidebau ysgolion heb eu dirprwyo.

**6.6 Y Cyfrif Refeniw Tai (CRT).** Mae'r sefyllfa refeniw ddiweddaraf yn tybio y bydd gostyngiad mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn o £4k sy'n cyd-fynd â'r gyllideb a gymeradwywyd. Felly rhagwelir y bydd balansau'r CRT yn £1.005 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Gyllideb Gyfalaf o £22.8 miliwn yn cael ei rhannu'n bennaf rhwng gwelliannau arfaethedig i'r stoc dai bresennol (£10 miliwn) a chaffaeliadau a datblygiadau tai newydd (£12.8 miliwn).

**6.7 - Rheoli'r Trysorlys** - Ar ddiwedd mis Mai, roedd cyfanswm benthyciadau'r Cyngor yn £230.372 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 3.83%. Roedd y balansau buddsoddi yn £23.9 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 0.59%.

**6.8 Amgaeir crynodeb o Gynllun Cyfalaf** y Cyngor yn Atodiad 4. Y cynllun cyfalaf cymeradwy yw £62.64 miliwn, gyda gwariant hyd yma o £1.94 miliwn. Mae Atodiad 5 yn cynnwys diweddariad ar y prif brosiectau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf cyffredinol. Mae arian wrth gefn y Cynllun Cyfalaf wedi'i gynyddu £1.676 miliwn, i £2.176 miliwn (i fyny o'r £0.500 miliwn y cytunwyd arno ym mis Chwefror). Mae'r cynnydd o ganlyniad i ddwyn ymlaen yr elfen heb ei neilltuo o grant cyfalaf a gafwyd gan LIC ym mis Mawrth. Bydd y swm wrth gefn cynyddol yn helpu i liniaru'r risgiau i'r rhaglen gyffredinol o effaith chwyddiant ar gostau cyfalaf.

**6.9** Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ddinbych (CSDd) dan ddeddfwriaeth i weinyddu a chasglu Trethi Busnes ar ran y Llywodraeth Cymru. Mae bil blynyddol yn cael ei gyhoeddi yn darparu 10 rhandaliad misol i fusnesau dalu. Bydd methu gwneud taliad yn arwain at roi nodiadau atgoffa, rhybuddion terfynol a gwysion i fynychu Llys Ynadon.

Fodd bynnag, mewn rhai achosion mae'n amlwg na fydd unrhyw daliadau yn cael eu gwneud ac mae'n briodol ystyried dileu'r ddyled. Mae'n bwysig bod goruchwyliaeth briodol ar waith ar gyfer y penderfyniadau hyn. Mae manylion y ddau achos wedi'u cynnwys yn Atodiad 6. Rydym yn argymhell na ellir adennill y dyledion hyn ac felly y dylid eu dileu.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o'r Effaith ar Les?**

Cafodd Aseidiadau o'r Effaith ar Les ar gyfer y cynnydd yn Nhreth y Cyngor eu cyflwyno i'r Cyngor ar 25 Ionawr.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, cafodd proses y gyllideb ei hystyried gan y Tîm Arwain Strategol, cyfarfodydd Briffio'r Cabinet, Arweinwyr Grŵp a chyfarfodydd Briffio'r Cyngor. Mae'r Fforwm Cyllidebau Ysgolion wedi'i gynnwys yn y cynigion drwy'r flwyddyn. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol. Mae pandemig Covid-19 wedi parhau i effeithio ar y lefel o ymgynghori ac ymgysylltu gyda'r cyhoedd. Ond er hynny mae cynlluniau ar waith i ymgysylltu'n gynnar gyda'r holl fudd-ddeiliaid yn ystod proses gyllidebol 2023/24.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Croesewir ein bod yn dechrau'r flwyddyn ariannol hon mewn sefyllfa llawer gwell nag yr oeddem wedi'i ofni diolch i gefnogaeth Covid barhaus gan Lywodraeth Cymru, sef y setliad cyllideb gwell na'r disgwyl ar gyfer 22/23. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae monitro cynnar yn dangos pwysau yn y Gwasanaethau Plant. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn y maes hwn dros y blynyddoedd diwethaf a disgwylir y bydd yr angen yn parhau. Mae pwysau cychwynnol eisoes wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd angen adolygu'r pwysau ar y Gwasanaethau Plant yn y misoedd nesaf. Ni fydd y cronfeydd wrth gefn a ddelir yn

gorfforaethol yn cael eu rhyddhau mor fuan â hyn yn y flwyddyn ariannol ond mae i weld y byddant yn ddigon i ymdrin â'r pwysau ar wasanaethau.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'n parhau i fod yn gyfnod heriol yn ariannol ac mae ansicrwydd mewn perthynas â'r cynnydd parhaus mewn chwyddiant, Brexit a strategaeth ariannol Llywodraeth y DU wrth ymdrin â'r effaith ariannol hirdymor ar gyllid cyhoeddus o'r ymateb i Covid a'r argyfwng costau byw. Er bod y rhagolygon ariannol yn ansicr, mae ein sefyllfa ariannol yn iach ac mae proses gyllideb 3/5 mlynedd gadarn wedi cael ei chymeradwyo'n ddiweddar gan y Tîm Arwain Strategol, y Tîm Gweithredol Corfforaethol, y Cabinet ac mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi craffu arni.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

D â'n Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.